



BookTrust Cymru

Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading



Her Rigymu Pori Drwy Stori

The Pori Drwy Stori Rhyme Challenge



Enw/Name.....

Dosbarth/Class.....

Join us on a
journey through
rhymes and
songs!



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

booktrust.org.uk/poridrwystori

Croeso i Her Rigymu Pori Drwy Stori!



Y tymor hwn, fe fydd eich plentyn yn cymryd rhan yn Her Rigymu Pori Drwy Stori.

Fe fydd eich plentyn yn dysgu rhigwm neu gân newydd bob wythnos. Mae'r rhain wedi'u dewis i fynd â'ch plentyn ar siwrnai drwy wahanol fathau o rigymau a chaneuon.

Fe fydd athro'ch plentyn yn dewis rhai o'r rhigymau o'r llyfryn hwn i'r dosbarth eu mwynhau.

Mae rhannu rhigymau a chaneuon yn ffordd wych i gael

hwyl gyda'ch plentyn. Mae hefyd yn gallu cefnogi eu sgiliau iaith a chyfathrebu, eu helpu nhw i ddod yn wrandawyr da a meithrin eu hyder i ymuno â phethau.

Mae rhigymau a chaneuon yn helpu plant i ddysgu gwahanol synau mewn iaith, i deimlo'i rhythm ac i gael hwyl â geiriau. Fe fydd y pethau hyn yn bendant yn helpu'ch plentyn i ddarllen, siarad ac ysgrifennu.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n cael hwyl yn cwblhau'r Her Rigymu gyda'ch plentyn.

Gair i Gall

- Ceisiwch rannu'r rhigymau bob dydd – bob yn dipyn yn aml sydd orau.
- Rhannwch y rhigymau a'r caneuon yn unrhyw le ac ar unrhyw adeg o'r dydd – yn y car, ar y ffordd i'r ysgol a chyn gwely.
- Popeth yn iawn os mai dim ond rhan o'r rhigwm y mae'ch plentyn yn ei ddysgu. Y peth pwysig yw eu bod nhw'n ymuno â phethau ac yn cael hwyl!
- Gallwch chi wrando arnyn nhw ar ein gwefan booktrust.org.uk/fideos-her-rigymu



Welcome to the Pori Drwy Stori Rhyme Challenge!



This term your child will be taking part in the Pori Drwy Stori Rhyme Challenge.

Your child will be learning a new rhyme or song each week. These have been chosen to take your child on a journey through different kinds of rhymes and songs.

Your child's teacher will choose some of the rhymes from this booklet for the class to enjoy.

Sharing rhymes and songs is a great way to have fun with your child. It can also support their language and communication

skills, help them become good listeners and build their confidence to join in.

Rhymes and songs help children to learn the different sounds in a language, to feel its rhythm and to have fun with words. These things will really help your child to read, talk and write.

We hope that you will have fun completing the Rhyme Challenge with your child!



Top Tips

- Try to share the rhymes every day – little and often is best.
- Share the rhymes and songs anywhere and at any time of day – in the car, on the way to school or before bed.
- It's fine if your child only learns part of the rhyme. The important thing is that they join in and have fun!
- You can listen to the rhymes on our website at booktrust.org.uk/pdsr-rhyme-challenge-videos



Ein Siwrnai Rigymu Our Rhyming Journey

Ar ddiwedd bob wythnos, ysgrifennwch
enwau'r rhigymau rydych chi wedi'u dysgu.
Yna lliwiwch y llwybr ar gyfer yr wythnos honno.

At the end of each week write the
names of the rhymes you've learned.
Colour the section of the pathway each
week after you've learned the rhyme.



Dechreuwch
yma!
Start here!

Wythnos 1 Week 1

Ein rhigwm yr wythnos hon yw:
Our rhyme this week is:

Wythnos 2 Week 2

Ein rhigwm yr wythnos hon yw:
Our rhyme this week is:

Wythnos 3 Week 3

Ein rhigwm yr wythnos hon yw:
Our rhyme this week is:

Wythnos 4 Week 4

Ein rhigwm yr wythnos hon yw:
Our rhyme this week is:

Wythnos 5 Week 5

Ein rhigwm yr wythnos hon yw:
Our rhyme this week is:

Llongyfarchiadau!
**Gwnes i gwblhau'r Her
Rigymu ar**

Congratulations!
**I completed the
Rhyme Challenge on**

Wythnos 1: Rhigymau Rhifau Week 1: Number Rhymes

Wythnos 1
Week 1

Fe fydd y rhigymau rhifau hyn yn helpu'ch plentyn i ymarfer cyfrif. Mae plant wrth eu boddau â'r ailadrodd ac mae'n eu helpu nhw i ddysgu'r geiriau.

These number rhymes will help your child practise counting. Children love the repetition and it helps them learn the words.



Deg yn Cysgu'n Iach



Roedd 10 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'

Cyfrwch yn ôl tan fydd yna neb ar
ôl yn y gwely:

Doedd na 'run yn cysgu'n
iach! Nos Da!



Gair i Gall

Ceisiwch adrodd y rhigymau'n uchel ac yn dawel, yn gyflym ac yn araf. Gofynnwch i'ch plentyn newid ei lais gyda chi. Fe fydd hyn yn ei helpu i ddysgu i wrando'n ofalus.

Un a Dau a Thri Banana!

Un a dau a thri banana,
Pedwar, pump a chwech banana,
Saith ac wyth a naw banana,
Deg banana felen!

Gair i Gall

Pediwch â phoeni os nad yw'ch plentyn yn ymuno â phethau i ddechrau. Mae'n dda iddyn nhw wrando, hefyd.

One and Two and Three Bananas!

One and two and three bananas,
Four and five and six bananas,
Seven and eight and nine bananas,
Ten yellow bananas!

Top Tip

Don't worry if your child doesn't join in at first. It's good for them to listen too.



Ten Fat Sausages

Ten fat sausages, sizzling in a pan.
Ten fat sausages, sizzling in a pan.
One went 'Pop!' and another went 'Bang!'
There were eight fat sausages, sizzling in a pan.

Repeat and count down in twos until:

Two fat sausages, sizzling in a pan.
Two fat sausages, sizzling in a pan.
One went 'Pop!' and another went 'Bang!'
There were no fat sausages, sizzling in a pan.



Top Tip

Try saying the rhymes loudly and quietly, quickly and slowly. Ask your child to change their voice with you. This will help them learn to listen carefully.

Wythnos 2: Hwiangerddi Week 2: Nursery Rhymes

Wythnos 2
Week 2

Mae'r hwiangerddi a'r caneuon traddodiadol hyn wedi bod gyda ni am genedlaethau. Maen nhw'n adrodd straeon syml, difyr.

These nursery rhymes and traditional songs have been with us for generations. They tell simple, fun stories.

Hicori Dicori Doc

Hicori Dicori Doc,
llygoden lan y cloc;
mae'n taro tri,
i lawr â hi!
Hicori Dicori Doc.

Gair i Gall

Crëwch eich ystumiau eich hun
ar gyfer y rhigymau.



Miss Polly Had a Dolly

Miss Polly had a dolly who was sick, sick, sick.
So she phoned for the doctor to be quick, quick, quick.

The doctor came with her bag and her hat.
And she knocked at the door with a rat-a-tat-tat.

She looked at the dolly and she shook her head.
Then she said to Miss Polly 'Put her straight to bed!'

She wrote on a paper for a pill, pill, pill.
'I'll be back in the morning for my bill, bill, bill.'

Top Tip

Make up your own actions for the rhymes.



Fuoch Chi Erioed yn Morio?

Fuoch chi erioed yn morio?
Wel do mewn padell ffrio;
chwythodd y gwynt fi i'r Eil o Man,
a dyna lle bum i'n crio.

Crio'n arw arw,
dim byd ond tywydd garw;
be' glywen i'n rhywle uwch fy mhen,
ond gwylan wen yn galw.

Gwylan wen yn galw -
'Wel wir mae'n biti garw.
Rhaid i ti aros hanner dydd,
yn llonydd am y llanw.'

Llanw'n dwad wedyn,
a'r gwynt yn troi yn sydyn;
lansio'r badell ar y gro,
a nofio'n ôl i Nefyn.

Gair i Gall

Clapiwch, stampiwch neu
stompiwch i rhythm y rhigymau.




Grand Old Duke of York

Oh, the Grand Old Duke of York,
He had ten thousand men,
He marched them up to the top of the hill,
And he marched them down again.

And when they were up, they were up,
And when they were down, they were down,
And when they were only half way up,
They were neither up nor down.

Top Tip

Clap, stamp and stomp to the rhythms
of the rhyme.



Wythnos 3: Cylymau Tafod Week 3: Tongue Twisters


Pedoli Pedoli



Pedoli, pedoli, pedoli, pe-dinc,
mi fynaf bedoli pe gostia imi bunt.
Pedol yn ôl a phedol ymlaen,
pedol yn eisiau o dan y troed aswy.
Pe-dinc, pe-dinc, pe-dinc,
pe-dinc, pe-dinc, pe-dinc.




Yellow Butter, Purple Jelly



Yellow butter, purple jelly, red jam, black bread.
Spread it thick, say it quick!

Yellow butter, purple jelly, red jam, black bread.
Spread it thicker, say it quicker!

Yellow butter, purple jelly, red jam, black bread.
Don't eat with your mouth full!



Cylymau Tafod bach i chi

Rowliodd lori Lowri lawr y lôn.
Oer yw eira ar Eryri.



Mae gan y rhigymau hyn lawer o eiriau a synau i geisio cael eich tafod o'u hamgylch! Peidiwch â phoeni os yw pethau'n mynd o chwith - y peth pwysig yw'ch bod chi'n cael hwy! â'r geiriau!
These rhymes have lots of words and sounds to get your tongue around! Don't worry if you get things wrong - just have fun with the words!

Tarw Corniog

Tarw corniog, torri cyrnau,
Heglau baglog, higlau byglau;
Higlau byglau, heglau baglog,
Torri cyrnau tarw corniog.

Lightbulb - Gair i Gall

Pan rydych chi'n adrodd y rhigymau mae'n helpu'ch plentyn os yw'n gallu gweld eich wyneb a gweld sut rydych chi'n symud eich ceg.



The Seasons

Spring is showery, flowery, bowery,
Summer is hoppy, croppy, poppy,
Autumn is wheezy, sneezy, freezy,
Winter is slippy, drippy, nippy.

Lightbulb - Top Tip

When you say the rhymes it helps your child if they can see your face and how you move your mouth.

Little Tongue Twisters

Red lorry, yellow lorry. Red lorry, yellow lorry. Red lorry, yellow lorry.

Six sleek swans swam swiftly southwards.

Wythnos 4: Rhigymau Actol

Week 4: Action Rhymes

Wythnos 4
Week 4

Mae ystumiau'n helpu plant i gofio geiriau ac ymuno â phethau. Maen nhw hefyd yn gallu helpu â sgiliau echddygol, sgiliau symud a chanolbwyntio.

Actions help children remember words and join in. They can also help with motor and movement skills and concentration.

Rydyn ni wedi cynnwys rhai caneuon clapio - gallwch chi wylto'r rhigymau actol hyn yn booktrust.org.uk/fideos-her-rigymu

We've included some clapping songs - watch all these action rhymes at booktrust.org.uk/pdsr-rhyme-challenge-videos

Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed

Pen, ysgwyddau, coesau, traed,
Pen, ysgwyddau, coesau, traed,
Llygaid, clustiau, trwyn a cheg,
Pen, ysgwyddau, coesau, traed.



Gair i Gall

Adroddwch y rhigymau'n araf i ddechrau - fe fydd hyn yn helpu'ch plentyn i ddysgu'r gwahanol eiriau ac yn rhoi amser iddyn nhw ymuno â phethau. Gallwch chi gyflymu pan fydd eich plentyn yn gwybod y rhigwm!



Migldi Magldi

Ffeind a difyr ydyw gweled,
migldi magldi hei no no.
Drws yr efail yn agored,
migldi magldi hei no no.
A'r go bach a'i wyneb purddu,
migldi magldi hei no no.
Yn yr efail yn prysur chwythu,
migldi magldi hei no no.



Head, Shoulders, Knees and Toes

Head, shoulders, knees and toes,
Knees and toes.
Head, shoulders, knees and toes,
Knees and toes.
And eyes, and ears, and mouth,
And nose.
Head, shoulders, knees and toes,
Knees and toes.



Top Tip

Say the rhymes slowly at first - this helps your child learn the different words and gives them time to join in. Speed up when your child knows the rhyme!



A Sailor Went to Sea

A sailor went to sea, sea, sea,
To see what he could see, see, see.
But all that he could see, see, see,
Was the bottom of the deep blue sea, sea, sea.

The sailor dipped his net, net, net,
To see what he could get, get, get.
But all that he could get, get, get,
Was very, very soaking wet, wet, wet!



Wythnos 5: Cerddi Difyr

Week 5: Fun Poems

Dw i'n Hoffi

Dwi'n hoffi'r haul a tywydd braf
A mynd i lan y môr bob haf,
Cael nofio yn y môr mawr glas,
Gwneud castell tywod, rhedeg ras.



Gair i Gall
Pan fydd eich plentyn yn gwybod y rhigwm, gadewch iddyn nhw orffen y llinell eu hunain!

I Eat My Peas With Honey

I eat my peas with honey,
I've done it all my life.
It makes the peas taste funny,
But it keeps them on the knife.



Mae'r rhigymau byr hyn yn gyflwyniad gwych i farddoniaeth.
These short rhymes are a great introduction to poetry.

Pry Pric yn y Picnic

Roedd 'na bry cop yn y pop,
pry llydan yn y frechdan,
pili pala ar y fala,
chwilen yn y gacen,
gwenyn yn y menyn,
cacwn ar y bacwn,
siani flewog ar yr eog,
mosgito ar y tomato,
cnonod yn y nionod,
chwain ar darten Nain,
lindys ar y mefus,
penbyliad yn y salad,
morgrugyn ar y brigyn
a gwybedyn yn y rhedyn,
ond nes i'm bwyta'r rheiny!




Top Tip
When your child knows the rhyme, let them finish the line themselves!

Frank the Friendly Alien

I'm Frank, the friendly alien.
From deepest outer space.
My face is fairly friendly.
It's such a friendly face.

My teeth are sharp and pointed.
My eyes are big and red.
I have such friendly features
upon my friendly head.

My claws are shaped like daggers.
My hands are huge and hairy
I'd love to stay and tell you more
but you look much too scary.





Mae Pori Drwy Stori'n ysbrydoli cariad at lyfrau, straeon a rhigymau, ac mae'n cefnogi plant i

ddatblygu sgiliau siarad, gwrando a rhifedd. Fe fydd eich plentyn yn derbyn adnoddau Pori Drwy Stori bob tymor trwy'r dosbarth Derbyn.

BookTrust Cymru sy'n cyflenwi rhaglen Pori Drwy Stori, ariannwyd gan Adnodd a noddir gan Lywodraeth Cymru.

BookTrust yw elusen ddarllen plant fwyaf y DU. Rydyn ni wedi ymrwymo i gael plant i ddarllen. Rydyn ni'n cael plant i ddarllen mewn llawer o wahanol ffyrdd, ond ein blaenoriaeth yw cael mwy o blant i deimlo'n gyffrous ynglŷn â llyfrau, rhigymau a straeon - oherwydd, os yw darllen yn hwyl, yna fe fydd plant eisiau ei wneud. Mae Pori Drwy Stori'n adeiladu ar ein rhaglen Dechrau Da. Fe ddylai bob plentyn yng Nghymru dderbyn pecyn Dechrau Da oddi wrth eu Hymwelydd lechyd pan maen nhw'n 6 mis oed ac yn 27 mis oed.

Pori Drwy Stori inspires a love of books, stories and rhymes and supports children to develop speaking, listening and numeracy skills. Your child will receive Pori Drwy Stori resources each term throughout Reception.

Pori Drwy Stori is delivered by BookTrust Cymru, funded by Adnodd and sponsored by the Welsh Government.

BookTrust is the UK's largest children's reading charity. We are dedicated to getting children reading. We get children reading in lots of different ways, but our priority is to get more children excited about books, rhymes and stories - because if reading is fun, children will want to do it. Pori Drwy Stori builds on our Bookstart programme. All children in Wales should receive a Bookstart pack from their health visitor at 6 months and 27 months.



Deq yn Cysgu'n Iach: Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu trwy ganiatâd caredig Child's Play (International) Ltd. © 1979 Child's Play.

Ten Fat Sausages: Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm *One Finger, One Thumb* (SSCD002) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

Miss Polly Had a Dolly: Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm *Humpy Dumpty* (PTCD260) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

Grand Old Duke of York: Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm *Humpy Dumpty* (PTCD260) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

Fusch Chi Eiroed yn Morio? Tradodiadol.

Yellow Butter, Purple Jelly: Wedi'i ddefnyddio trwy ganiatâd Asiani Ienyddal Gina Maccoby. Hawlfraint © 1981 gan Mary Ann Haberman.

Pedoli Pedoli: Tradodiadol.

The Seasons: Hawlfraint © Mother Goose.

A Sailor Went to Sea: Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm *Row, Row, Row Your Boat* (SSCD17) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed: Geiriau i *Head, Shoulders, Knees and Toes* wedi'u hatgynhyrchu trwy ganiatâd caredig Babyboom Ltd. Gallwch chi fynd i Babyboomboom.com i gael mwy o ganeuon Cymraeg dwyieithog.

Migldi Magldi: Tradodiadol.

Head, Shoulders, Knees and Toes: Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm *This Little Piggy* (STNCD02) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

I Eat My Peas with Honey: Dienw.

Dw i'n Hoffi Mair Elwyn: Hawlfraint © Atebal 2019

Pry Pric yn y Picnic - Hawlfraint © Gwyneth Glyn - Trwy ganiatâd caredig Gomer.

Frank the Friendly Alien: Hawlfraint © 2017 Kenn Nesbitt. Cedwir pob hawl. Wedi'i adargraffu trwy ganiatâd yr awdur.

Mae BookTrust wedi gweithredu yn ddifffant gan wneud pob ymdrech i ganfod deliadau hawlfreintiau, cael eu caniatâd a sicrhau bod pob cydnabyddiaeth yn gywir. Ymddiheurwn am unrhyw esgeulustod anfwriadol, a chânt eu cywiro cyn gynted â phosibl pe rhoddir gwybod inni'n ysgrifenedig.

Deq yn Cysgu'n Iach: Song words reproduced by kind permission of Child's Play (International) Ltd. © 1979 Child's Play.

Ten Fat Sausages: Song words reproduced from the album *One Finger, One Thumb* (SSCD002) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

Miss Polly Had a Dolly: Song words reproduced from the album *Humpy Dumpty* (PTCD260) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

Grand Old Duke of York: Song words reproduced from the album *Humpy Dumpty* (PTCD260) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

Fusch Chi Eiroed yn Morio? Traditional.

Yellow Butter, Purple Jelly: Used by permission of Gina Maccoby Literary agent. Copyright © 1981 by Mary Ann Haberman.

Pedoli Pedoli: Traditional.

The Seasons: © Mother Goose.

A Sailor Went to Sea: Song words reproduced from the album *Row, Row, Row Your Boat* (SSCD17) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed: Lyrics to *Head, Shoulders, Knees and Toes* reproduced by kind permission of Babyboomboom Ltd. Please visit Babyboomboom.com for more bilingual Welsh songs.

Migldi Magldi: Traditional.

Head, Shoulders, Knees and Toes: Song words reproduced from the album *This Little Piggy* (STNCD02) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

I Eat My Peas with Honey: Anonymous.

Dw i'n Hoffi Mair Elwyn: Copyright © Atebal 2019

Pry Pric yn y Picnic - Hawlfraint © Gwyneth Glyn - Trwy ganiatâd caredig/By kind permission of Gomer.

Frank the Friendly Alien: Copyright © 2017 Kenn Nesbitt. All Rights Reserved. Reprinted by permission of the author.

BookTrust has acted in good faith with every effort to trace copyright holders, obtain permission from them and to ensure that all credits are correct. We apologise for any inadvertent omissions, which will be corrected as soon as possible if notification is given to us in writing.